Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-820
Ein cyf/Our ref KS/01381/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

01 Mehefin 2018

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Mai ynglŷn â Deiseb P-05-820 Peidiwch â Chymryd Castell-nedd oddi ar y brif reilffordd.

Mae y seilwaith rheilffyrdd yn fater sy'n gyfan gwbl yn nwylo Llywodraeth y DU.

Rwy'n credu bod y pryderon a leisiwyd yn y ddeiseb o ganlyniad uniongyrchol i gynnig y tu allan i'r llywodraeth gan yr Athro Mark Barry allai olygu bod gorsaf Castell-nedd yn dod oddi ar y brif reilffordd i Lundain. Ni chafodd y cynnig hwn ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gorsafoedd rheilffyrdd sy'n cynnig gwasanaeth rheolaidd i'w cymunedau ac wedi gwneud ein safbwynt ynghylch gorsaf Castell-nedd yn glir iawn, ac yn wir nifer o orsafoedd eraill yn yr ardal. Nid ydym yn credu y dylid ond diogelu'r gorsafoedd hyn ond eu gwella hefyd.

Wrth i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi ym mis Gorffennaf y llynedd ei fod yn canslo'r cynllun i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe, dywedodd ei fod wedi gofyn i Network Rail ddatblygu opsiynau i wella teithiau i deithwyr yng Nghymru. Cafodd cynlluniau posibl i wella amseroedd teithio rhwng Bryste ac Abertawe ac i wella cyfleusterau'r gorsafoedd yn Abertawe eu crybwyll yn benodol.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi comisiynu yr Athro Mark Barry i ddatblygu'r achos dros fuddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd yn Ne Cymru a Gogledd Cymru drwy 'Achosion Amlinellol Strategol y Rhaglen' gan gynnwys achosion busnes unigol ar gyfer gwella gorsafoedd o fewn ac o amgylch Abertawe, a gwella amseroedd teithio a chysylltiadau rhwng Abertawe a Chaerdydd, a rhwng De Cymru, Bryste a Llundain. Mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â datblygu Metro Bae Abertawe a byddwn yn edrych ar unrhyw gynigion o fewn gweledigaeth y metro a fydd yn cynnig seilwaith gwell ar draws y rhwydwaith cyfan.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rhestr hir o opsiynau ar gyfer gwella amseroedd teithio ar y rheilffyrdd i gymudwyr a theithwyr pellter hir yn ne Cymru a byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid i nodi beth yw'r rhain fel y gallwn baratoi'r achos gorau posibl i Lywodraeth y DU ar gyfer cyllido'r gwelliannau hyn y mae cymaint o alw amdanynt.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport